OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1647 (Cy.128)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud	- -	*21 Mehefin 2005*
Yn dod i rym	- -	*24 Mehefin 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(2), 17(1) a (2), 26(1)(a) a (3), 31a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**) ac wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 24 Mehefin 2005.

(**1**) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990.

(**2**) Mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol a oedd yn eu trefn yn ymwneud ag iechyd yn Lloegr a bwyd a iechyd yng Nghymru ac, o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28) ac mae paragraffau 12 a 21 o'r Atodlen honno yn diwygio yn eu trefn adrannau 17(2) a 48 o Ddeddf 1990. Diwygiwyd adran 48 hefyd gan Reoliadau Deddf Diogelwch Bwyd (Diwygio) 2004 (O.S. 2004/2990). Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999 a throsglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran yr Alban, i Weinidogion yr Alban gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (1998 p. 46) fel y'i darllenir gydag adran 40(2) o Ddeddf 1999.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Cyfarwyddeb 93/10/EEC" ("*Directive 93/10/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 93/10/EEC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau wedi'u gwneud o ffilm seliwlos a adfywiwyd y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(**4**);

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "ffilm seliwlos a adfywiwyd" ("*regenerated cellulose film*") yw deunydd haenen denau a gafwyd o seliwlos a goethwyd sy'n deillio o bren neu gotwm nas ailgylchwyd, gydag ychwanegiad o sylweddau addas neu beidio, naill ai yn y màs neu ar un arwyneb neu'r ddau arwyneb, ond nad yw'n cynnwys casinau synthetig o seliwlos a adfywiwyd;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig neu ddangos rhywbeth i'w werthu ac mae'n cynnwys cael rhywbeth yn eich meddiant i'w werthu, a rhaid deall "sale" a "sold" yn unol â hynny;

ystyr "mewnforio" ("*import*") yw mewnforio wrth gynnal busnes o le heblaw o Aelod-wladwriaeth;

mae "paratoi" ("*preparation*") o ran bwyd yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw fath o brosesu neu drin;

ystyr "plastigau" ("*plastics*") yw'r deunyddiau a'r eitemau hynny y mae Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72/EC sy'n ymwneud â deunyddiau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd yn gymwys iddynt(**5**);

ystyr "Rheoliad 1935/2004" ("*Regulation 1935/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC a 89/109/EEC(**6**); ac

ystyr "Rheoliadau 1998" ("*the 1998 Regulations*") yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998(**7**);

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Erthygl â Rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn Rheoliad 1935/2004.

(3) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 1935/2004 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Rheoliad hwnnw.

Cwmpas

3. Nid yw darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r deunyddiau ac eitemau hynny a bennir yn is-baragraffau (a), (b) ac (c) o Erthygl 1(3).

(**4**) OJ Rhif L93, 17.4.93, t.27, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/14/EC (OJ Rhif L27, 30.1.2004, t.48).
(**5**) OJ Rhif L220, 15.8.2002, t.18, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/19/EC (OJ Rhif L71, 10.3.2004, t.8).
(**6**) OJ Rhif L338, 13.11.2004, t.4.
(**7**) O.S. 1998/1376, fel y'i diwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 2000/3162, O.S. 2002/2364, O.S. 2004/3113 ac O.S. 2005/325.

RHAN 2

Gofynion Cyffredinol ar gyfer Deunyddiau ac Eitemau

Gorfodi Rheoliad 1935/2004

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 27 (trefniadau trosiannol), bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Rheoliad 1935/2004 yn euog o dramgwydd —

(a) Erthygl 3 (gofynion cyffredinol);

(b) Erthygl 4 (gofynion penodedig ar gyfer deunyddiau ac eitemau adweithiol a deallus);

(c) Erthygl 11(4) a (5) (darpariaethau sy'n ymwneud ag awdurdodiad y Gymuned);

(ch) Erthygl 15(1), (2), (3), (4), (7) ac (8) (labelu);

(d) Erthygl 16(1) (datganiad o gydymffurfio);

(dd) ar neu ar ôl 27 Hydref 2006, Erthygl 17(2) (gallu olrhain).

Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 1935/2004

5. Dynodir y cyrff canlynol fel awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau Rheoliad 1935/2004 fel a bennir isod —

(a) o ran Eitemau 9 a 13, yr Asiantaeth;

(b) o ran Eitemau 16(1) a 17(2), yr Asiantaeth a'r awdurdod sy'n gyfrifol am orfodi yn unol â rheoliad 12(1).

RHAN 3

Y gofynion ar gyfer Finyl Clorid

Terfynau a therfynau ymfudiad

6.—(1) O ran deunyddiau ac eitemau a weithgynhyrchir gan bolymerau finyl clorid neu gopolymerau —

(a) rhaid iddynt beidio â chynnwys monomer finyl clorid mewn mesur sy'n fwy nag 1 miligram y cilogram o'r deunydd neu eitem fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 7(1); a

(b) rhaid iddynt gael eu gweithgynhyrchu yn y fath fodd nad ydynt yn trosglwyddo i fwydydd y maent mewn cysylltiad â hwy unrhyw fesur o finyl clorid sy'n fwy na 0.01 miligram o finyl clorid y cilogram o fwyd fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 7(2).

(2) Ni chaiff neb —

(a) gwerthu;

(b) mewnforio; neu

(c) defnyddio wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd,

unrhyw ddeunydd neu eitem o'r fath nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

Dulliau Dadansoddi

7.—(1) Y dull i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi unrhyw sampl at ddibenion sefydlu mesur y monomer finyl clorid sy'n bresennol yn y deunydd neu'r eitem er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â rheoliad 6(1)(a) fydd y dull a bennir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 80/766/EEC (sy'n gosod dull dadansoddi'r Gymuned ar gyfer rheolaeth swyddogol lefel monomer finyl clorid mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd)(**8**).

(2) Y dull i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi unrhyw fwyd at ddibenion sefydlu mesur y finyl clorid sy'n bresennol yn y bwyd er mwyn penderfynu a yw deunydd neu eitem sydd neu a fu mewn cysylltiad â'r bwyd yn cydymffurfio â rheoliad 6(1)(b) fydd y dull a bennir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 81/432/EEC (sy'n gosod dull dadansoddi'r Gymuned ar gyfer rheolaeth swyddogol finyl clorid a ryddhawyd gan ddeunydd ac eitemau i fwydydd)(**9**).

RHAN 4

Y Gofynion ar gyfer Ffilm Seliwlos a Adfywiwyd

Rheolaethau a therfynau

8.—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i ffilm seliwlos a adfywiwyd —

(a) sydd ynddo'i hun yn ffurfio cynnyrch gorffenedig; neu

(b) sy'n rhan o gynnyrch gorffenedig sy'n cynnwys deunyddiau eraill,

ac y bwriedir iddi ddod i gysylltiad â bwyd, neu wrth ei defnyddio i'r diben hwnnw ei bod yn dod i gysylltiad â bwyd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y rheoliad hwn at Atodiad II yn gyfeiriad at Atodiad II i Gyfarwyddeb 93/10/EEC.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), ni chaiff unrhyw berson weithgynhyrchu unrhyw ffilm seliwlos a adfywiwyd y bwriedir iddi ddod i gysylltiad â bwyd sy'n defnyddio unrhyw sylwedd neu grwp o sylweddau heblaw'r sylweddau a enwir neu a ddisgrifir —

(a) yng ngholofn gyntaf (enwau) Atodiad II yn yr achos —

(i) ffilm heb gaenen; neu

(ii) ffilm â chaenen os yw'r gaenen yn deillio o seliwlos;

(b) yng ngholofn gyntaf Rhan Gyntaf Atodiad II yn achos ffilm sydd i gael caenen, os ffurfir y gaenen o blastigau;

onid yw'n unol â'r amodau a'r cyfyngiadau a bennir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn o'r Rhan briodol o Atodiad II, fel y'i darllenir gyda'r rhaglith i'r Atodiad hwnnw.

(4) Ni chaiff neb weithgynhyrchu unrhyw gaenen sydd i'w rhoi ar ffilm y cyfeirir ati ym mharagraff (3)(b) sy'n defnyddio unrhyw sylwedd neu grwp o sylweddau heblaw'r sylweddau a restrir yn Atodlen 1, 2 neu 2A i Reoliadau 1998 onid yw'n unol â'r gofynion, cyfyngiadau a manylebau priodol a geir yn y Rheoliadau hynny ac yn yr Atodlenni iddynt.

(5) Caniateir defnyddio sylweddau heblaw'r rhai a restrir yn Atodiad II fel lliwyddion neu ludyddion wrth weithgynhyrchu ffilm y mae paragraff (3)(a) yn gymwys iddi, ar yr amod y gweithgynhyrchir y ffilm honno yn y fath fodd nad yw'n trosglwyddo unrhyw liwydd neu ludydd i fwyd mewn unrhyw fesur y gellir ei ganfod.

(6) Yn ddarostyngedig i reoliad 10 ni chaiff neb —

(**8**) OJ Rhif L213, 16.8.90, t.42.
(**9**) OJ Rhif L167, 24.6.81, t.6.

(a) gwerthu;

(b) mewnforio; neu

(c) defnyddio wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd,

unrhyw ffilm seliwlos a adfywiwyd a weithgynhyrchwyd yn groes i ofynion paragraff (3) neu (4), neu sy'n methu cydymffurfio â pharagraff (8).

(7) Ni chaiff neb ddefnyddio wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd —

(a) os yw'r bwyd yn cynnwys dwr sy'n gorfforol rydd ar yr wyneb, unrhyw ffilm seliwlos a adfywiwyd sy'n cynnwys bis(2-hydrocsyethyl) ether, ethanediol neu'r ddau sylwedd hyn;

(b) unrhyw ffilm seliwlos a adfywiwyd yn y fath fodd y bydd unrhyw wyneb printiedig o'r ffilm honno'n dod i gysylltiad â'r bwyd.

(8) Rhaid i ddatganiad ysgrifenedig sy'n tystio ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys ar ei gyfer fynd gydag unrhyw ddeunydd neu eitem a wnaed o ffilm seliwlos a adfywiwyd yn y cyfnod marchnata ac eithrio'r cyfnod adwerthu, onis bwriedir iddo yn amlwg yn ôl ei natur ddod i gysylltiad â bwyd.

Terfynau ymfudiad ar gyfer ffilm seliwlos a adfywiwyd gyda chaenen o blastigau

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff neb weithgynhyrchu na mewnforio unrhyw ddeunydd neu eitem a wnaed gyda ffilm seliwlos a adfywiwyd gyda chaenen o blastigau —

(a) y bwriedir iddi ddod i gysylltiad â bwyd; a

(b) sydd â'r gallu i drosglwyddo ei chyfansoddion i fwyd mewn mesurau sy'n fwy na therfyn ymfudiad cyffredinol o 10 miligram y decimetr sgwâr o wyneb y deunydd neu'r eitem mewn cysylltiad â bwyd.

(2) Yn achos unrhyw ddeunydd neu eitem a wnaed gyda ffilm seliwlos a adfywiwyd gyda chaenen o blastigau —

(a) sy'n gynhwysydd neu'n gymharol â chynhwysydd y gellir ei lenwi ac iddo gynhwysedd nad yw'n llai na 500 mililitr a dim mwy na 10 litr; neu

(b) y gellir ei llenwi a'i bod yn anymarferol i amcangyfrif arwynebedd yr wyneb mewn cysylltiad â bwyd; neu

(c) sy'n gap, gasged, caead neu ddyfais debyg ar gyfer selio,

y terfyn ymfudiad cyffredinol fydd 60 miligram o gyfansoddion a drosglwyddir y cilogram o fwyd.

(3) Ni chaiff neb weithgynhyrchu na mewnforio unrhyw ddeunydd neu eitem a wnaed o ffilm seliwlos a adfywiwyd gyda chaenen o blastigau a weithgynhyrchwyd gydag unrhyw sylweddau a restrir yn Rhan I o Atodlen 1 i Reoliadau 1998 (monomerau awdurdodedig) —

(a) y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd; a

(b) sydd â'r gallu i drosglwyddo eu cyfansoddion i fwyd mewn mesurau sy'n fwy na'r terfynau ymfudiad penodol a nodir yng ngholofn 4 o'r Rhan honno fel y'i darllenir gyda Rhan II o'r Atodlen honno.

(4) Os mynegir y terfyn ymfudiad ar gyfer sylwedd a grybwyllir ym mharagraff (3) mewn miligramau y cilogram, yn achos ffilm seliwlos a adfywiwyd gyda chaenen o blastigau —

(a) sy'n gynhwysydd neu'n gymharol â chynhwysydd y gellir ei lenwi ac iddo gynhwysedd sy'n llai na 500 mililitr neu'n fwy na 10 litr; neu

(b) na ellir ei llenwi neu ei bod yn anymarferol i amcangyfrif y berthynas rhwng arwynebedd wyneb y ffilm a mesur y bwyd mewn cysylltiad â hi,